Prifysgol Abertawe
Swansea University

Astudiaeth achos: ARC Fabrications

Diogelu'r Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer busnesau proffesiynol

Gweithgynhyrchu Amaethyddol ar gyfer y Dyfodol

hyfforddiant mewn datblygiad cynaliadwy ar gyfer y sector Gweithgynhyrchu Amaethyddol

Delir yr hawlfraint ar y defnyddiau cyhoeddedig o brosiect PP4SD Prifysgol Abertawe, yn y fformadau argraffedig a chrynoddisg, gan yr awduron. Rydym yn cefnogi'r defnydd o'r defnyddiau, gan ofyn yn unig am i'r gydnabyddiaeth ganlynol gael ei rhoi bob tro y'u defnyddir:

"Datblygwyd y defnyddiau hyn gan dîm PP4SD ym Mhrifysgol Abertawe, gyda mewnbwn arbenigol gan PP4SD y DU. Cefnogwyd y gwaith o'u datblygu a'u cynhyrchu gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3."

(Delir yr hawlfraint ar lawlyfr gwreiddiol PP4SD, y daw defnydd Prifysgol Abertawe'n rhannol ohono, gan Sefydliad y Gwyddorau Amgylcheddol.)

Cefnogir gan Gronfa Manteisio ar Wybodaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd dan Amcanion 1 a 3

Lantra

ARFERION PROFFESIYNOL TUAG AT DDATBLYGU CYNALIADWY
pp4sd
PROFESSIONAL PRACTICE FOR SUSTAINABLE DEVELOPMENT

Astudiaeth achos: ARC Fabrications

Y Cefndir

Sefydlwyd cwmni ARC Fabrications gan y perchennog, Mr David Jenkins, ym 1989 yn Abertawe, De Cymru, ar ôl iddo gwblhau cwrs hyfforddiant gyda chymorth Cynllun Lwfansau Mentergarwch y Llywodraeth. Ym 1996, o ganlyniad i ymlediad y busnes, fe'i hadleolwyd i'r safle presennol yng Ngorseinon, 7 milltir (11km) i'r gorllewin o Abertawe.

Mae'r cwmni'n ymgymryd â sawl math o waith gweithgynhyrchu, gan gynnwys cynhyrchu a chodi adeiladau diwydiannol. Mae'r busnes hefyd yn cyflawni llawer o gomisiynau unigol ar gyfer gosodiadau mewn dur gloyw a gwydr megis grisiau ar gyfer y cwsmer diwydiannol ac i gartrefi. Mae eu contractiau wedi ehangu dros y blynyddoedd o rai bach ar gyfer cartrefi i gwmpasu busnesau diwydiannol mawr, a thrwy thystlythyrau personol a geirda ar lafar maent wedi llwyddo i sicrhau nifer o gontractiau diwydiannol mawr i godi adeiladau dur. Mae gwaith strwythurol mewn dur ar adeiladau diwydiannol yn dod yn gynyddol bwysig i'r cwmni, ac erbyn hyn mae'n cyfrif am ryw 50% o'u gweithgarwch.

Ffynhonnell: ARC Fabrications

Maent yn gallu cynhyrchu clwydi a a ffensys amaethyddol, ond nid ydynt yn ymgymryd â'r math hwn o waith ar hyn o bryd gan nad oes galw ar y cwmni i wneud y rhain. Mae'r rhan fwyaf o'r math hwn o waith yn cael ei gyflawni gan gwmnïau mawrion, gan fod y rhain mewn sefyllfa i allu darparu meintiau mawr o gynhyrchion o'r fath. Mae cost y dur yn lleihau'n aruthrol wrth i'r nifer o eitemau a archebir gynyddu, ac o'r herwydd nid yw'n bosibl i gwmni bach tebyg i ARC gystadlu o ran pris y cynnyrch terfynol yn y maes hwn.

Mae'r cwmni'n cyflogi rhwng 4 ac 8 o bobl, yn ôl y maint o waith sydd ganddo, a chyflawnir y gwaith gweinyddol gan Mr Jenkins.

Mae Mr Jenkins yn ymwybodol o'r cysyniad o ddatblygiad cynaliadwy yn yr ystyr economaidd a chynhyrchiol, ond nid yw wedi mynd i'r afael â'r problemau ehangach yn ei fusnes o ddydd i ddydd. Mae'n ymwybodol o'r buddion sy'n dod o gaffael defnyddiau'n lleol, ac yn wir mae'n prynu'r rhan fwyaf o'r dur a defnyddir gan ei gwmni yn Ne Cymru. Serch hynny, mae'n rhaid iddo brynu cyflenwadau eraill o ffynonellau sydd ymhellach i ffwrdd mewn rhannau eraill o'r DU. Byddai'n hoffi prynu mwy o eitemau'n lleol, ond dan yr amodau economaidd presennol mae cwestiwn y pris yn ei orfodi i weithredu fel arall.

Cedwir y maint o ddefnyddiau gwastraff a gynhyrchir gan y busnes i'r lefel isaf bosibl, gan fod y defnyddiau hyn yn fetelau cymharol werthfawr yn bennaf. Mae'r ddefnyddiau a anfonir i gael eu hailgylchu'n cynnwys metel sgrap, papur swyddfa a defnydd pecynnu cardford.

Ffynhonnell:
ARC Fabrications

Cyfleoddd a rhwystrau

Mae'r busnes yn wynebu cryn gystadleuaeth gan gwmnïau newydd, y mae eu costau cyffredinol yn aml yn is. Maent yn gallu gyrru'r prisiau am rai mathau o waith i lawr i lefelau nad ydynt yn ildio elw iddo.

Ar hyn o bryd (2008) mae prisiau cynyddol defnyddiau crai ledled y byd hefyd yn rhwystr o bwys rhag cynllunio ar gyfer y tymor hir. Mae dur er enghraifft yn costio tua £550 (€700) y dunnell bellach, tra bod y pris bum mlynedd yn ôl o gwmpas £290 (€360) y dunnell.

Mae enw da'r cwmni am waith dibynadwy o answdd uchel wedi mynd ar led, ac o ganlyniad mae cwsmeriaid yn cael eu cyfeirio ymlaen ato gan gwsmeriaid bodlon eraill.

Y dyfodol

Carai Mr Jenkins symud ymlaen at weithgynhyrchu ei gynhyrchion ei hun; byddai hyn yn dod â buddion megis cyflenwad rheolaidd cyson o ddefnyddiau a gwaith, ac aelodau staff sydd wedi magu sgiliau yn y prosesau perthnasol. Mae Mr Jenkins yn ymwybodol y byddai hyn yn creu rhychwant eang newydd o gyfleoedd a heriau, ac y byddai'n rhaid iddo fe ac i'w staff ddatblygu a manteisio ar y sgiliau hynny sydd ganddynt yn barod mewn meysydd megis gwerthiannau a marchnata.

Ffynhonnell:
ARC Fabrications